



**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR
CYDNABYDDIAETH ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN
31 GORFFENAF 2020**

ADRODDIAD CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

RHAGARWEINIAD

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu Strategaeth Taliadau'r brifysgol ac am bennu cydnabyddiaeth ariannol ac amodau a thelerau ar gyfer yr Is-ganghellor ac aelodau'r Uwch-dîm Rheoli.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau bod cydnabyddiaeth ariannol Athrawon a Chyfarwyddwyr ar Radd 11 yn cael ei hadolygu'n flynyddol, yn seiliedig ar argymhellion yr Uwch-dîm Rheoli, gan ddefnyddio proses deg sy'n adlewyrchu perfformiad pob unigolyn yng nghyd-destun perfformiad y Brifysgol. Pennir cyflogau Athrawon Clinigol o dan drefniadau ar wahân.

Mae'n ystyried fforddiadwyedd a gwybodaeth gymharol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau a thelerau cyflogaeth yn y sector prifysgolion a'r cyd-destun ehangach lle bynnag y bo'n briodol er mwyn cyflawni'r nodau canlynol:

- Gall y Brifysgol recriwtio a chadw arweinwyr academiaidd a Gwasanaethau Proffesiynol o safon uchel;
- Pennir targedau a chymhellion perfformiad priodol a chaiff canlyniadau eu monitro ar gyfer yr arweinwyr hyn er mwyn datblygu llwyddiant parhaus y Brifysgol.

Wrth bennu'r gydnabyddiaeth ariannol a ddyfarnir, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan y Brifysgol at gydnabod perfformiad ar gyfer yr holl rolau sydd o fewn cwmpas ei gylch gorchwyl, sef:

Yr Uwch-dîm Rheoli, Penaethiaid Colegau, Cyfarwyddwyr ac Athrawon. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at wybodaeth feincnodi ar gyfer y sector a ddarperir gan Arolwg Cyflogau Uwch-swyddogion diweddaraf yr UCEA.

Mae'r egwyddorion allweddol sy'n llywio ymagwedd y Brifysgol at gydnabyddiaeth ariannol fel a ganlyn:

- Mae dyfarniadau cyflog yn seiliedig ar deilyngdod a pherfformiad.
- Pennir lefelau'r dyfarniadau gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, yng nghyd-destun perfformiad cyffredinol y Brifysgol, a chan ystyried data perthnasol o'r farchnad.
- Disgwylir i'r holl aelodau staff cymwys gyflwyno cais blynyddol i'w ystyried, i ategu data perfformiad sydd ar gael fel rhan o broses yr Adolygiad Datblygiad Proffesiynol. Mae'r uwch-arweinwyr yn y Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gymwys yn llawer llai niferus, felly caiff y rhain eu hystyried gan y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu a'u trafod drwy broses gymedroli cyn i argymhellion gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.
- Mae gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol awdurdod i bennu dyfarniadau y tu allan i'r cylch arferol mewn amgylchiadau eithriadol
- Caiff cyflog yr Is-ganghellor, ynghyd â data anhysbys am gyflogau uwchlaw £100,000, ei gyhoeddi yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol a'r Datganiadau Ariannol.
- Mae penderfyniadau'n amodol ar asesiad o effaith ar gydraddoldeb.

AELODAETH Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Cadeirir y Pwyllgor gan Aelod Lleyg o'r Cyngor. Nid yw'r Is-ganghellor yn aelod o'r Pwyllgor. Mae'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu'n cyflawni rôl Ysgrifennydd i'r Pwyllgor ond nid yw'n aelod. Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn cynghori'r Pwyllgor ar broses er mwyn sicrhau tegwch gweithdrefnol yn unol

â Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC).

Ni fydd aelod staff yn bresennol pan drafodir cydnabyddiaeth ariannol yr aelod staff hwnnw neu pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu ar ddyfarniad aelodau Uwch-dîm Rheoli'r Is-ganghellor.

Aelodau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yw:

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol:
Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor:
Dirprwy Ganghellor:
Aelod:
Aelod:

Mr Gordon Anderson
Mr Bleddyn Phillips
Syr Roderick Evans
Dr Kerry Beynon (Aelod Lleyg o'r Cyngor)
Ms Elin Rhys (Aelod Lleyg o'r Cyngor)

Y BROSES CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Mae'r ffactorau a ddefnyddir wrth ystyried cynigion am daliadau deiliaid uwch-swyddi yn cynnwys y rhai canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- a) perfformiad wrth gefnogi amcanion strategol y sefydliad mewn meysydd megis:
 - Ymchwil
 - Addysgu
 - Arloesi ac Ymgysylltu
 - Arweinyddiaeth a Rheoli
 - Partneriaethau a chysylltiadau allanol, yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol
 - Mentrau a phrosiectau mawr;
- b) maint a chymhlethdod y sefydliad;
- c) natur y marchnadoedd addysg uwch a materion recriwtio a chadw;
- ch) amcanion y sefydliad mewn perthynas ag amrywiaeth y gweithlu; a'r
- d) ffaith bod cyflogau rhai aelodau staff yn cael eu pennu gan y GIG, nid gan y Brifysgol.

Daw data i ategu'r dangosyddion hyn o:

- a) Arolwg Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a Cholegau (UCEA);
- b) Dadansoddiad o ddsbarthiadau cyflog.

Asesir perfformiad pob unigolyn yn unol â gofynion ei rôl a chaiff ei raddio ar sail hynny, ar raddfa 0-3 fel a ganlyn:

MEINI PRAWF GRADDIO PERFFORMIAD	
0	Tystiolaeth annigonol bod y lefel perfformiad ddangosol yn cael ei chynnal
1	Tystiolaeth ddigonol bod y lefel perfformiad ddangosol yn cael ei chynnal
2	Tystiolaeth ddigonol o ragori ar y lefel perfformiad ddangosol
3	Tystiolaeth ddigonol o berfformiad eithriadol sy'n rhagori ar y lefel perfformiad ddangosol

Gwneir penderfyniadau ar dâl yr Is-ganghellor gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Brifysgol, gan ystyried y ffactorau uchod yn ogystal â'r canlynol:

- I ba raddau y cyflawnir nodau strategol y Brifysgol
- Ehangder cyfrifoldebau arweinyddiaeth ac ariannol ar ran y Brifysgol
- Atebolrwydd am gynnal profiad sy'n bodloni Safon Aur y FfRhA ar gyfer myfyrwyr y Brifysgol
- Atebolrwydd am gynnal ac adeiladu ar lwyddiant REF2014, gan wella enw'r Brifysgol am ymchwil a'i heffaith
- Meincodi'r cyflog yn erbyn prifysgolion cymharol.

Penodwyd yr Is-ganghellor presennol ym mis Gorffennaf 2019 a chytunwyd ar ei becyn cydnabyddiaeth ariannol ar yr adeg honno. Adlewyrchodd ddyfnder ei brofiad arweinyddiaeth, rheoli ac academaidd yn y sector addysg uwch.

Yn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol eleni, nododd yr Is-ganghellor nad oedd yn dymuno cael ei ystyried am daliad mewn perthynas â pherfformiad ar gyfer y flwyddyn 2019/20.

Yn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2020, nododd yr Uwch-dîm rheoli, gan gynnwys yr Is-ganghellor, nad oeddent yn dymuno cael eu hystyried am daliad mewn perthynas â pherfformiad ar gyfer y flwyddyn 2019/20.

ENILLION YR IS-GANGHELLOR

Enillion yr Is-ganghellor ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 a 31 Gorffennaf 2019 (gweler hefyd Nodyn 7 adran y datganiadau ariannol o Adolygiad Gweithredol ac Ariannol 2019-2020).

	2019/20 £000	2019/20 £000	2018/19 £000	2018/19 £000
Cyflog		293		257
Buddion mewn nwyddau trethadwy:				
<i>Llety a chostau cysylltiedig</i>	19			
<i>Car y Brifysgol a chostau cysylltiedig</i>	24			
<i>Buddion eraill</i>	9	52		9
Cyfanswm		345		266

CYMHAREB TÂL YR IS-GANGHELLOR I'R TÂL CANOLRIFOL YW:

2019/20	2018/19
9.1:1	7.1:1

Roedd costau llety yn sylweddol uwch yn 2020 oherwydd newid yn rheolau treth HMRC mewn perthynas â phreswylfa'r Is-ganghellor - rheolau sy'n effeithio ar bob prifysgol - pan ddaeth llety'n drethadwy am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2019. Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd llety wedi'i rentu i'r Is-ganghellor yn lle tŷ'r Brifysgol oherwydd cyflwr gwael yr eiddo a chynyddodd y costau cyffredinol o ganlyniad. Roedd car a gyrrwr ar cael i'r Is-ganghellor a ddefnyddiwyd ganddo am deithiau mewn perthynas â gwaith a rhai personol. O ganlyniad fe'u cofnodwyd fel Budd mewn Nwyddau yn 2019/20. Nid yw'r car a'r gyrrwr yn cael eu defnyddio mwyach.

CYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2019-2020

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ddwywaith yn ystod blwyddyn academiaidd 2019/20. Gweler y manylion isod:

25 Tachwedd 2019

Rheswm dros y cyfarfod	Penderfyniadau a wnaed ac a gofnodwyd
Cytuno ar ddyfarniadau cyflog ar gyfer rolau'r Uwch-dîm Rheoli, fel y cytunwyd yn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2019	<p>Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ganlynol er mwyn cynorthwyo'r broses benderfynu:</p> <ul style="list-style-type: none">gwybodaeth gyd-destunol am lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer rolau cymharol ledled y DU ar sail data o Arolwg Cyflogau Uwch-swyddogion yr UCEA. <p>Canlyniad:</p> <ul style="list-style-type: none">Cytunwyd ar gyflogau'r rolau.

30 Mehefin 2020

Rheswm dros y cyfarfod	Penderfyniadau a wnaed ac a gofnodwyd
<p>Trafod y gwerthusiad perfformiad arfaethedig a'r taliad arfaethedig ar gyfer aelodau staff Gradd 11:</p> <ul style="list-style-type: none">Uwch-dîm RheoliPenaethiaid ColegauCyfarwyddwyrAthrawon	<p>Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth ganlynol er mwyn cynorthwyo'r broses benderfynu:</p> <ul style="list-style-type: none">y ddogfennaeth a'r prosesau a ddefnyddir gan y Pwyllgorau Cyflogau Athrawol a Swyddi Uwch yn eu hadolygiad o berfformiad athrawolamrywiaeth o fodelau ar gyfer mapio perfformiad ar gynyddrannau ar y Raddfa Athrawol a gwybodaeth gymharu am gyflogau o Arolwg Cyflogau Uwch-swyddogion yr UCEAbarn yr Uwch-dîm Rheoli nad oeddent yn dymuno cael eu hystyried am daliadau perfformiad eleniamgylchiadau ariannol presennol y Brifysgol ac incwm a gynhyrchwyd gan unigolion ar radd athrawony cyfnod amser a oedd yn cael ei ystyried mewn perthynas â pherfformiad. <p>Cytunodd y pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none">y dylid derbyn barn yr Uwch-dîm Rheoliyn dilyn profi, herio a chraffu, y dylid derbyn yr argymhellion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ynghylch taliadau perfformiad ar gyfer Athrawon, Penaethiaid Colegau a Chyfarwyddwyr a gafodd eu llywio gan feincnodi'r UCEAy byddai newidiadau cyflog, o ganlyniad i benderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol, yn dod i rym ar 1 Awst 2020y byddai'r Brifysgol yn datblygu fframwaith dyfarniadau mwy hyblyg ar gyfer cydweithwyr gradd 11, sy'n cynnwys opsiynau cyfunedig a heb fod yn gyfunedig. <p>Nododd y pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none">y trefniadau diswyddo a roddwyd ar waith ar gyfer cydweithwyr gradd 11 o fewn cwmpas Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannoly cydweithwyr a ddyrchafwyd drwy'r weithdrefn Dawn Eithriadol, a nodir yn y Polisi Dyrchafiad Academiaidd.

